Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Archwiliad AHGTAEF o ymateb rhanbarthol De Cymru i droseddau difrifol a throseddu trefnedig**

Croesawaf yr adroddiad hwn gan Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Rwy'n cefnogi'r argymhellion sy'n ceisio cryfhau ymateb Heddlu Dyfed-Powys i Drais Difrifol a Throseddu Trefnedig i sicrhau bod yr Heddlu'n cyflwyno'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau lleol.

Amlinellir dau faes y gallai Heddlu Dyfed-Powys eu gwella yn yr adroddiad hwn, ac yn rhinwedd fy swydd fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, byddaf yn monitro cynnydd yr Heddlu o ran gweithredu'r newidiadau sydd angen.

Mae'n dda gennyf ddweud bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo yn Heddlu Dyfed-Powys i gyflawni'r argymhellion hyn. Yn dilyn yr archwiliad, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi rhoi Cynllun Gwella Trais Difrifol a Throseddu Trefnedig ar waith i fynd i'r afael â'r argymhellion o fewn yr adroddiad.

**Maes i'w wella: Mae angen i Heddlu Dyfed-Powys wella'r ffordd mae'r gweithlu'n deall troseddau difrifol a throseddu trefnedig**

Rwyf wedi cael gwybod y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn datblygu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a fydd yn ceisio deall y ffordd fwyaf effeithiol o gyfleu negeseuon allweddol ac ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau. Bydd dadansoddiad o sgiliau a bwlch gwybodaeth hefyd yn cael ei gynnal er mwyn nodi anghenion y gweithlu.

Bydd cyflenwi'r Strategaeth hon yn cynnwys gweithdy gyda rhanddeiliaid mewnol a phartneriaid i nodi'r ffordd orau o werthuso ac ychwanegu gwerth. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyniad wyneb yn wyneb gan arbenigwyr o fewn Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu a'r Uned Troseddau Difrifol ar Raddfa Fawr i swyddogion rheng flaen. Bydd digwyddiadau ymgysylltu fel rhain yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw feysydd angen a nodwyd drwy'r broses dadansoddi bylchau.

O ganlyniad, datblygir Strategaeth i wella ymwybyddiaeth a gallu swyddogion arbenigol a swyddogion rheng flaen i fanylu eu rôl yn ymateb yr Heddlu i Droseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig. Adlewyrchir hyn ar gyfer partneriaid drwy lywodraethu'r bwrdd/byrddau Trais Difrifol a Throseddu Trefnedig a pharhau i gefnogi Swyddogion Cyfrifol Arweiniol.

**Maes i'w wella: Dylai Heddlu Dyfed-Powys wella'r ffordd mae'n rheoli cyflawnwyr troseddau difrifol a throseddu trefnedig**

Yr wyf wedi fy sicrhau y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i weithio'n agos â Tarian i wella'r agwedd hon ar draws holl heddluoedd de Cymru. Yr wyf hefyd wedi cael gwybod bod proses llywodraethu Tarian mewn grym i gefnogi ac annog heddluoedd de Cymru i ddefnyddio pwerau a galluoedd i sicrhau bod ymateb effeithiol i droseddau difrifol a throseddu trefnedig yn cael ei ailadrodd yn gyson ar draws y rhanbarth cyfan.

Fel uchod, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal digwyddiad ymgysylltu i ddeall rhwystrau a bylchau gwybodaeth. Lle mae angen, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus ac yn sicrhau gwell defnydd o adnoddau'r Heddlu (e.e. Swyddog cyfreithiol a gorchmynion) i gefnogi dechreuwyr newydd gyda'r Heddlu.

Yr wyf hefyd wedi fy sicrhau y bydd mwy o ffocws ar droseddau difrifol a throseddu trefnedig yng nghyfarfod pennu tasgau'r Heddlu. Bydd hyn yn sicrhau bod camau gweithredu sy'n ymwneud â throseddau difrifol a throseddu trefnedig yn cael eu dogfennu'n rheolaidd fel bod rheoli troseddwyr ehangach yn bwrw ymlaen fel arfer ar gyfer pob tîm Uned Reoli Sylfaenol ar draws yr ardal Heddlu.

Roeddwn i hefyd eisiau cynnig diweddariad a rhywfaint o eglurder o gwmpas peth o'r geiriad a gynhwysir yn adroddiad AHGTAEF, sy'n ymwneud â sôn am gyllid gan SCHTh a'r cyd-destun o gwmpas hyn. Rhwng Ionawr a Mai 2025, cynhaliwyd adolygiad heddlu ar y gwasanaethau atal, ymyrryd ac ymgysylltu ar gyfer plant a phobl ifainc gan Heddlu Dyfed-Powys. Fel rhan o'r adolygiad, ystyriwyd y rhaglen INTACT, gan ddefnyddio'r canfyddiadau o'r gwerthusiad allanol o'r rhaglen yn 2023, ymgynghoriad mewnol ac allanol, a gwerthusiad o weithdrefnau a gallu gweithredol y rhaglen. Nodwyd bod meysydd yr oedd angen eu gwella, er bod sawl elfen o'r rhaglen yn gweithio'n dda.

Defnyddiodd Heddlu Dyfed-Powys ganfyddiadau'r adolygiad fel cyfle i weithredu cyfres o welliannau ar draws y sefydliad. Mae'r rhaglen INTACT a oedd yn cael ei chyflwyno gan SCCH wedi dod i ben, gyda gwasanaeth diwygiedig yn cael ei weithredu ar hyn o bryd, a fydd yn gweld tîm o wyth aelod staff newydd yn cael eu cynnwys o fewn Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdod Lleol, wedi'u hyfforddi i gyflenwi gwasanaeth atal, ymyrraeth gynnar ac ymgysylltu i blant ledled ardal Dyfed-Powys ochr yn ochr â phartneriaid. Mae Dadansoddwr Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn wedi'i recriwtio i gasglu, dadansoddi a chyflwyno data heddlu i'r tîm newydd sy'n ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifainc a allai elwa o atal, ymyrraeth ac ymgysylltu. Mae'r Dadansoddwr yn gweithio gyda Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu, lle mae'n ymgysylltu'n rheolaidd â'r Cydlynydd Trais Difrifol a Throseddu Trefnedig a swyddogion a staff o fewn y Ganolfan Fregusrwydd er mwyn sicrhau bod gwendidau a ffactorau risg sy'n

gysylltiedig â chamfanteisio ar blant yn cael eu hadnabod a'u trin yn gynnar.

Yn ogystal, mae Gwasanaeth Ysgolion Heddlu Dyfed-Powys yn cael ei estyn i sefydliadau Addysg Bellach ledled ardal Dyfed-Powys. Bydd yr estyniad hwn yn sicrhau bod gan arweinwyr diogelu fynediad at swyddog penodol i fynegi pryderon yn gynnar, ac y gall dysgwyr gael mynediad at negeseuon allweddol a fydd yn cynnwys adnabod arwyddion camfanteisio.

Yn olaf, cyflwynwyd Prosiect Peilot Momentau Cyraeddadwy yn nalfeydd Heddlu Dyfed-Powys ym mis Ionawr 2026 am gyfnod o 12 mis. Mae'r prosiect yn anelu i sicrhau bod plant a phobl ifainc sy'n cael eu cymryd i'r ddalfa'n derbyn y gefnogaeth iawn ar yr amser iawn, gan ymgysylltu â nhw drwy weithiwr Momentau Cyraeddadwy hyfforddedig. Gwasanaeth ar alwad 24/7 yw hwn a gyflwynir gan Adferiad ym mhob dalfa yn ardal Dyfed-Powys, i gynnig cefnogaeth emosiynol ac arweiniad, a helpu i atal niwed pellach, trawma a chysylltiad â throsedd yn y dyfodol, yn ogystal â lleihau'r trawma a achosir drwy fod mewn dalfa fel plentyn. Mae hwn yn gyfle hefyd i nodi unrhyw wendidau neu ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chamfanteisio ar blant. Bydd gwerthusiad llawn yn cael ei gynnal i hysbysu penderfyniadau o gwmpas parhau i'w ddefnyddio.

Rwy'n ddiolchgar am yr adroddiad hwn a'i argymhellion. Bydd fy nhîm a minnau'n parhau i weithio'n agos â chynrychiolwyr o Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau bod yr ymatebion hyn i'r argymhellion yn cael eu gwireddu'n llawn.